# Panel Dyfarnu Cymru

## Adroddiad Blynyddol



2009 - 2010

ISBN 978 0 7504 5872 6
© Hawlfraint y Goron 2010
WAG10-10750
F5191011

# Rhagair

Mae'r adroddiad hwn yn bwrw golwg dros waith Panel Dyfarnu Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2009-10.

Yn ystod 2009-10, cafodd y Panel 12 atgyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac un apêl yn erbyn penderfyniad gan Bwyllgor Safonau. Ceir crynodeb o'r achosion y dyfarnwyd arnynt yn Adran 3 o'r adroddiad hwn. Cafwyd tipyn mwy nag arfer o atgyfeiriadau ac rwy'n ymwybodol nad yw rhai o'r achosion wedi symud ymlaen mor gyflym ag y dymunwn. Fodd bynnag, mae trefniadau ar y gweill i fynd i'r afael â hyn ac rwy'n disgwyl y bydd y misoedd nesaf yn rhai prysur iawn gan fod nifer o wrandawiadau wedi'u trefnu ar gyfer diwedd yr haf ac i mewn i'r hydref. Rwy'n bwriadu adolygu ein trefniadau ar gyfer rhestru tribiwnlysoedd er mwyn cadarnhau dyddiadau gwrandawiadau yn gynharach yn y broses.

Yn ystod y flwyddyn, bu aelod o Bwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yn sylwedydd mewn nifer o dribiwnlysoedd. Mae'n bleser gennyf ddweud i mi gael adroddiadau cadarnhaol iawn gan sylwedydd y Pwyllgor am y ffordd y cynhaliwyd y tribiwnlysoedd ac am ein gweithdrefnau sylfaenol.

Rwy'n dal o'r farn fod hyfforddi a datblygu aelodau'r Panel yn bwysig iawn a bu hyn yn rhan bwysig o weithgareddau'r Panel unwaith eto.

Ym mis Rhagfyr, cefais y pleser o groesawu Gareth Lewis, aelod o Bwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd i'n digwyddiad hyfforddi ni yng Nghaerdydd. Rhoddodd Gareth adroddiad manwl am brif ganfyddiadau Adolygiad y Pwyllgor o'r Tribiwnlysoedd sy'n Gweithredu yng Nghymru. Y prif argymhelliad oedd symud y cyfrifoldeb dros dribiwnlysoedd o adrannau polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adran Prif Weinidog Cymru a'r Cabinet. Rwy'n croesawu argymhellion yr adroddiad a'r lles y gallai ei wneud o ran sicrhau cronfa ganolog o arbenigedd ymhlith aelodau'r tribiwnlysoedd a gwneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau trwy rannu a chydgysylltu'r trefniadau gweinyddu.

Roedd digwyddiad hyfforddi mis Rhagfyr yn llwyddiannus iawn. Dysgwyd llawer am rôl ddiwygiedig Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a swyddogion monitro mewn gwrandawiadau tribiwnlysoedd ar ôl diwygio'r rheoliadau ym mis Hydref 2009.

Wrth sôn am Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, hoffwn gofnodi fy niolch i Peter Tyndall a'i dîm am barhau i'n cefnogi. Cefais lawer o gyfarfodydd gyda Peter yn ystod y flwyddyn i drafod gwaith ei swyddfa ef a'm swyddfa innau ac, unwaith eto, bu'r cyfarfodydd hyn yn eithriadol o fuddiol.

Wrth edrych ymlaen, hoffwn gyfeirio at fater y gostyngiadau mewn gwariant cyhoeddus a'r effaith bosibl ar waith y Panel. Er ein bod yn dal i ddisgwyl clywed beth fydd effaith lawn penderfyniadau'r Llywodraeth ar wariant, gwyddom na all y Panel osgoi'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus. Byddaf yn ceisio sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol gyda'r adnoddau sydd ar gael. Fel ffordd fechan o arbed adnoddau yn syth, dim ond ar wefan y Panel y caiff adroddiad eleni ei gyhoeddi.

Ymhellach i'r dyfodol, mae tymor aelodau cyfredol y Panel yn dod i ben ar 30 Medi 2012. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dechrau canfod aelodau newydd i gymryd lle'r rhai cyfredol yn raddol a disgwylir i nifer o benodiadau newydd gael eu cadarnhau yn yr hydref. Bydd hyn yn golygu y bydd yr aelodau newydd wedi cael eu traed tanynt cyn i dymhorau'r aelodau cyfredol ddod i ben.

Yn olaf, hoffwn longyfarch Hywel James yn wresog iawn - daeth yn Farnwr Rhanbarth yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn gryn gamp ac, ar ran y Panel, hoffwn ddymuno'n dda i Hywel yn ei swydd newydd. Serch hynny, rwy'n falch fod Hywel yn gallu parhau â'i waith gyda'r Panel tan ddiwedd ei dymor cyfredol.



J PETER DAVIES
Llywydd y Panel

# Cynnwys


## 1. Y Cefndir 4

1.1 Deddf Llywodraeth Leol 2000 4

1.2 Egwyddorion Ymddygiad / Cod Ymddygiad 4

1.3 Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 5

1.4 Rôl Panel Dyfarnu Cymru 5

## 2. Aelodau Panel Dyfarnu Cymru 7

## 3. Honiadau o Gamymddwyn 9

3.1 Trosolwg 9

3.2 Crynodeb o'r Tribiwnlysoedd Achos 10

3.3 Crynodeb o'r Tribiwnlysoedd Apêl 14

3.4 Achosion sydd ar y Gweill 15

## 4. Trosolwg o'r Gweithdrefnau 16

## 5. Yr Uned Gymorth 18

## Atodiad 19

- Crynodeb o'r cosbau a bennwyd gan y tribiwnlysoedd achos a'r tribiwnlysoedd apêl 19

# 1. Y Cefndir

## 1.1 Deddf Llywodraeth Leol 2000

Sefydlodd Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000") fframwaith newydd i annog aelodau llywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr i gadw safonau ymddygiad cyson. Ar 21 Mehefin 2001, gwnaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru y set gyntaf o reoliadau i roi'r fframwaith hwnnw ar waith yng Nghymru.

## 1.2 Egwyddorion Ymddygiad / Cod Ymddygiad

Roedd Deddf 2000 yn rhoi'r grym i'r Cynulliad Cenedlaethol i bennu egwyddorion ymddygiad cyffredinol ac i wneud cod ymddygiad enghreifftiol ar gyfer aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig sydd â hawliau pleidleisio. Seiliwyd yr egwyddorion ar 'Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus' a nodwyd yn adroddiad yr Arglwydd Nolan, 'Safonau Ymddygiad mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban'.

Caiff yr egwyddorion cyffredinol eu hymgorffori yn y cod ymddygiad enghreifftiol cyfredol a bennwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2008. Mae'n ofynnol i bob rhan o lywodraeth leol yng Nghymru (ac eithrio awdurdodau heddlu) - hynny yw, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, cynghorau tref a chynghorau cymuned, awdurdodau'r parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub - fabwysiadu cod ymddygiad sy'n cynnwys darpariaethau'r cod enghreifftiol. Mae'n rhaid i'r holl aelodau etholedig a chyfetholedig (sydd â hawliau pleidleisio) ymrwymo mewn ysgrifen i gadw at y cod ymddygiad a fabwysiedir gan eu hawdurdod.

Mae'n rhaid i awdurdodau heddlu yng Nghymru, fel yn Lloegr, gadw at god ymddygiad enghreifftiol a bennir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

## 1.3 Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru/ y Pwyllgorau Safonau

Caiff unrhyw un wneud honiad ysgrifenedig i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon") bod aelod etholedig neu gyfetholedig wedi torri cod ymddygiad rhyw awdurdod.

Mater i'r Ombwdsmon yw ystyried a yw'r honiad yn galw am ymchwiliad ac, os felly, ai ei swyddfa ef ynteu swyddog monitro'r awdurdod perthnasol ddylai gynnal yr ymchwiliad hwnnw. Ar ôl ymchwilio i'r mater, gall yr Ombwdsmon ddod i'r casgliad na thorrwyd y cod neu nad oes angen cymryd camau pellach. Os bydd yn canfod fel arall, bydd yn llunio adroddiad ar ôl cwblhau'r ymchwiliad ac yn ei anfon naill ai at swyddog monitro yr awdurdod perthnasol neu at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru.

Os bydd yr Ombwdsmon yn cyfeirio'r mater at y swyddog monitro, bydd pwyllgor safonau'r awdurdod perthnasol yn ystyried adroddiad yr ymchwiliad. Byddant hefyd yn ystyried unrhyw sylwadau gan y sawl sy'n wrthrych yr ymchwiliad ac, os na chydymffurfiwyd â'r cod, byddant yn penderfynu a ddylid rhoi cosb. Gallai hyn amrywio o gerydd i atal yr aelod am hyd at chwe mis.

## 1.4 Rôl Panel Dyfarnu Cymru

Mae gan y Panel Dyfarnu ddwy swyddogaeth statudol:

- Ffurfio tribiwnlysoedd achos neu dribiwnlysoedd achos interim i ystyried adroddiadau gan yr Ombwdsmon yn dilyn ymchwiliad i honiadau bod aelod heb gydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod perthnasol; ac
- Ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau Pwyllgorau Safonau lleol.

## Tribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim

Pan fydd yr Ombwdsmon yn anfon adroddiad at Lywydd y Panel Dyfarnu, caiff "tribiwnlys achos" sy'n cynnwys rhai o aelodau'r Panel ei gynnull i ystyried yr adroddiad, i dderbyn tystiolaeth ac i benderfynu a dorrwyd y cod ymddygiad.

Os bydd y tribiwnlys yn penderfynu bod aelod heb gydymffurfio â chod ymddygiad ei awdurdod, mae ganddo bwerau i atal yr aelod yn llwyr neu'n rhannol am hyd at flwyddyn; neu caiff anghymhwyso'r aelod am hyd at bum mlynedd. Os bydd tribiwnlys achos yn penderfynu bod rhywun heb gydymffurfio â chod ymddygiad rhyw awdurdod, caiff y person hwnnw geisio caniatâd yr Uchel Lys i apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw, neu unrhyw benderfyniad a wnaiff y tribiwnlys o ran cosb.

Os bydd yr Ombwdsmon o'r farn bod hynny'n angenrheidiol er budd y cyhoedd, caiff wneud adroddiad interim i Lywydd y Panel Dyfarnu yn argymell bod aelod yn cael ei atal dros dro tra cynhelir ymchwiliad. Bydd tribiwnlys achos interim yn penderfynu a ddylid atal yr aelod yn llwyr neu'n rhannol am hyd at chwe mis.

## Tribiwnlysoedd Apêl

Os bydd yr Ombwdsmon wedi cyfeirio'r mater at swyddog monitro a bod y pwyllgor safonau wedi dyfarnu bod aelod heb gydymffurfio â'r cod ymddygiad, mae gan yr aelod hwnnw hawl i apelio i'r Panel Dyfarnu. Rhaid ymarfer yr hawl honno cyn pen 21 diwrnod ar ôl i'r aelod gael gwybod am ddyfarniad y pwyllgor safonau. Os bydd y tribiwnlys apêl yn cytuno bod yr aelod wedi torri'r cod, gall gadarnhau'r gosb a bennwyd gan y pwyllgor safonau neu gall gyfeirio'r mater yn ôl at y pwyllgor gan argymell y dylid rhoi cosb wahanol. Yn ogystal, gall y tribiwnlys apêl wrthdroi dyfarniad pwyllgor safonau bod aelod wedi torri'r cod ymddygiad.

# 2. Aelodau Panel Dyfarnu Cymru

Penodwyd yr aelodau i'r Panel ar 1 Hydref 2007 am gyfnod pellach o bum mlynedd. Mae gan aelodau'r Panel brofiad a gwybodaeth berthnasol mewn meysydd eang. Maent yn dod o rannau gwahanol o Gymru sy'n golygu y gellir penodi aelodau i dribiwnlysoedd yn eu gwahanol ardaloedd ar yr amod nad oes achos o wrthdaro buddiannau.

Mae'r Llywydd, yr aelodau cyfreithiol ac un o'r aelodau lleyg yn siarad Cymraeg.



Mae Llywydd y Panel Dyfarnu, **Mr J Peter Davies** yn rhedeg ei bractis cyfreithiol ei hunan yng Nghaerdydd yn arbenigo mewn cyfraith sifil a masnachol ac, yn neilltuol, mewn materion rheoli. Mae'n Ddirprwy Farnwr Rhanbarth ac yn gadeirydd y Tribiwnlys Disgyblu Cyfreithwyr.



Mae **Mr Stewert Sandbrook-Hughes** yn fargyfreithiwr yn Abertawe ac yn ddyfarnwr gyda'r Gwasanaeth Dyfarnu Parcio Cenedlaethol.



Tan yn ddiweddar, roedd **Mr Hywel James** yn bartner gyda James & Bulteel yng Nghaerdydd, yn arbenigo mewn ymgyfreitha ac mewn esgeulustod proffesiynol yn neilltuol. Yn gynharach eleni, penodwyd Hywel yn Farnwr Rhanbarth gan Ei Mawrhydi y Frenhines.



Mae **Mrs Helen Cole** yn uwchbartner mewn practis cyffredinol yng nghefn gwlad Gorllewin Cymru. Mae'n arbenigo mewn gwaith annadleuol gyda chleientiaid preifat.



Mae **Mr Ian Blair** yn ymgynghorydd peirianneg sifil rhan amser. Bu'n Syrfëwr y Sir gyda Chyngor Sir Powys ac yn ddarlithydd gwadd ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth. Mae'n aelod o Fwrdd Llysoedd Canolbarth a Gorllewin Cymru.



Mae'r **Cyng Colin Evans** yn gynghorydd Llafur ar Gyngor Tref Cwmaman.



Mae'r **Cyng Christine Jones** yn aelod Annibynnol o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae hefyd yn aelod o fwrdd Cartrefi Conwy, yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.




Mae **Ms Juliet Morris** yn rhedeg busnes fferm organig yn Sir Gaerfyrddin. Bu'n gweithio ym maes polisi cymdeithasol a pholisi'r sector cyhoeddus gyda chyrff yn cynnwys Uned Gwybodaeth Llywodraeth Leol, Cyngor Defnyddwyr Cymru a'r sector cyngor annibynnol yng Nghymru.

# 3. Honiadau o Gamymddwyn


## 3.1 Trosolwg

Yn y cyfnod rhwng mis Hydref 2002 a 31 Mawrth 2010, daeth y Panel Dyfarnu i benderfyniad ar 21 o achosion a atgyfeiriwyd gan yr Ombwdsmon ac wyth apêl yn erbyn penderfyniadau gan bwyllgorau safonau. Mae Ffigurau 1 i 3 yn dangos canlyniadau'r dyfarniadau hynny. Rhoddir crynodeb o'r cosbau a roddwyd yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.


### Ffigur 1: Penderfyniadau tribiwnlysoedd achos, Hydref 2002 - Mawrth 2010




### Ffigur 2: Penderfyniadau tribiwnlysoedd apêl Hydref 2002 - Mawrth 2010



## Ffigur 3: Sut y torrwyd y cod




# 3.2 Crynodeb o Dribiwnlysoedd Achosion

Cyfeiriodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 12 achos i'r Panel yn ystod 2009-10 a chariwyd un achos drosodd o'r flwyddyn flaenorol. Ceir crynodeb isod o'r pedwar achos a benderfynwyd gan dribiwnlys achos yn ystod y cyfnod y mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio ato.

# APW/002/2008-09/CT - Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Honnodd un o swyddogion y Cyngor bod y cynghorydd dan sylw (aelod o'r weithrediaeth) wedi'i bwlio a brawychu yn ystod galwad ffôn ac mewn dau gyfarfod wedi hynny, yn cynnwys cyfarfod briffio ar bortffolio.

Roedd atgyfeiriad yr Ombwdsmon yn ymwneud â honiadau bod y cynghorydd wedi torri cod ymddygiad y Cyngor trwy beidio â dangos parch ac ystyriaeth at un o swyddogion y Cyngor; bod ei ymddygiad wedi peryglu neu'n debygol o beryglu didueddrwydd y swyddog; a'i fod wedi ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ystyried ei bod yn dwyn anfri ar swydd aelod o'r awdurdod.

Dyfarnodd Tribiwnlys yr Achos fod y cynghorydd, trwy dôn ei lais, ei agwedd a'i sylwadau yn ystod yr alwad ffôn wedi brawychu'r swyddog ac wedi ymddwyn mewn ffordd amhriodol. Dyfarnodd Tribiwnlys yr Achos hefyd fod y cynghorydd wedi brawychu'r swyddog mewn un o'r ddau gyfarfod. Roedd y ddau ddigwyddiad hyn yn cyfrif fel achosion o fynd yn groes i baragraff 4(a) o god ymddygiad 2001.

Dyfarnodd Tribiwnlys yr Achos nad oedd tystiolaeth i brofi bod y cynghorydd wedi mynd yn groes i baragraff 4(b) o god ymddygiad 2001, gan nad oedd dim i awgrymu bod y cynghorydd wedi dweud na gwneud dim a ddylanwadodd ar unrhyw benderfyniadau nac ymddygiad ar ran y swyddog.

Fodd bynnag, fe wnaeth Tribiwnlys yr Achos ddyfarnu bod ymddygiad yr aelod wedi dwyn anfri ar ei swydd trwy fynd yn groes i baragraff 6(1)(b) o god 2001.

Daeth y tribiwnlys i'r casgliad y dylid atal y cynghorydd rhag gweithredu fel aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent am gyfnod o 9 mis.

## APW/001/2009-010/CT - Cyngor Tref Abermaw

Roedd atgyfeiriad yr Ombwdsmon yn cyfeiro at honiadau bod y cynghorydd wedi torri cod ymddygiad y Cyngor trwy wneud gosodiadau a oedd yn faleisus, yn ddifenwol, yn ffeithiol anghywir ac yn homoffobig mewn llythyr at Ddirprwy Weinidog Llywodraeth y Cynulliad dros Adfywio ar y pryd.

Roedd y llythyr yn cynnwys gosodiadau am un o weithwyr Cyngor Gwynedd a'r sefydliad yr oedd ef yn ei reoli. Anfonwyd copi o'r llythyr at Brif Weithredwr y Cyngor.

Nododd Tribiwnlys yr Achos fod cynnwys y llythyr wedi cael effaith ddifrifol ar y gweithiwr a bod copi o'r llythyr wedi'i anfon yn fwriadol at ei gyflogwr, Cyngor Gwynedd. Nid oedd Tribiwnlys yr Achos wedi'i argyhoeddi, o bwyso a mesur y tebygolrwydd, mai prif ysgogiad y cynghorydd wrth ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog oedd atal cyfle i'r gweithiwr, yn bennaf ar sail cyfeiriadedd rhywiol, ac felly ni ddyfarnodd ei fod wedi mynd yn groes i baragraff 4(a) o god ymddygiad 2008 ar y sail honno.

Fodd bynnag, roedd Tribiwnlys yr Achos wedi'i argyhoeddi bod y geiriau a ddefnyddiwyd yn y llythyr a'u hystyr yn mynd yn groes i baragraff 4(b) o god 2008, yn yr ystyr nad oedd y cynghorydd wedi dangos parch ac ystyriaeth at rywun arall. Gallai'r geiriau a ddefnyddiwyd yn ei lythyr fod wedi peri tramgwydd ddifrifol ac fe wnaethant. Yn ogystal, dyfarnodd Tribiwnlys yr Achos fod y geiriau a ddefnyddiwyd wedi dwyn anfri ar swydd yr aelod gan fynd yn groes i baragraff 6(1)(a).

Gan iddo herio dyfarniad Tribiwnlys yr Achos, rhoddodd y cynghorydd achos i'r Tribiwnlys bryderu ei fod yn debygol o ddweud yr un peth eto wrth gyflawni ei ddyletswyddau fel cynghorydd. Felly, daeth Tribiwnlys yr Achos i'r casgliad y dylid anghymhwyso'r cynghorydd am gyfnod o 12 mis rhag bod neu ddod yn aelod o Gyngor Tref Abermaw neu unrhyw awdurdod perthnasol arall.

## APW/003/2009-010/CT - Dinas a Sir Abertawe

Roedd yr achos hwn yn ymwneud â honiadau am dorri codau ymddygiad 2001 a 2008. Honnwyd nad oedd yr aelod wedi datgan buddiant na gadael y cyfarfod pan oedd Cabinet y Cyngor yn ystyried enwebiadau wrth benodi llywodraethwyr ysgol pan oedd ei gŵr hi ymhlith yr ymgeiswyr. Honnwyd hefyd nad oedd yr aelod wedi datgelu buddiant personol na buddiant oedd yn rhagfarnu nac wedi gadael cyfarfod o Bwyllgor Safonau'r awdurdod pan oedd y Pwyllgor yn ystyried honiadau o gamymddwyn gan aelod arall. Yr un person oedd yr achwynydd yn yr achos hwnnw ag a wnaeth yr honiadau yn erbyn y cynghorydd ynglŷn â phenodi llywodraethwyr yr ysgol.

Dyfarnodd Tribiwnlys yr Achos fod y cynghorydd, trwy gymryd rhan ym mhenderfyniadau'r Cabinet ynghylch llywodraethwyr ysgol, wedi defnyddio ei swydd yn amhriodol i roi neu sicrhau mantais i'w gŵr, er nad oedd tystiolaeth o fwriad na chymhelliad bwriadol ar ei rhan.

Ynghylch cyfarfod y Pwyllgor Safonau, clywodd Tribiwnlys yr Achos bod hanes o ddrwgdeimlad personol ar ran yr achwynydd tuag at y cynghorydd. Daeth Tribiwnlys yr Achos i'r casgliad, o ddefnyddio prawf gwrthrychol, bod y drwgdeimlad mor ddwfn fel ei fod yn arwain at fuddiant personol a buddiant oedd yn rhagfarnu yn y materion gerbron y Pwyllgor Safonau. Serch hynny, ni chanfu Tribiwnlys yr Achos dystiolaeth bod y drwgdeimlad a ddangoswyd tuag

ati wedi effeithio mewn gwirionedd nac yn ymwybodol ar ran y cynghorydd ym mhenderfyniad y Pwyllgor Safonau.

Nododd Tribiwnlys yr Achos fod y cynghorydd wedi ceisio cyngor y Swyddog Monitro a'i bod wedi dilyn y cyngor a gafodd, ond bod hwnnw'n anghywir. Yng ngoleuni'r amgylchiadau lliniarol cryf iawn, penderfynodd Tribiwnlys yr Achos nad oedd yn briodol, yn angenrheidiol na'n ddymunol pennu cosb.

## APW/004/2009-010/CT - Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Roedd atgyfeiriad yr Ombwdsmon yn cyfeirio at honiadau bod y cynghorydd dan sylw wedi torri'r cod ymddygiad trwy beidio â dangos parch at deimladau rhywun arall wrth anfon neges e-bost, ac felly ei fod wedi dwyn anfri ar swydd aelod.

Dywedodd y cynghorydd nad oedd yn anghytuno â chynnwys Adroddiad yr Ombwdsmon a gwnaeth gais i'r mater gael ei benderfynu trwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig.

Dyfarnodd Tribiwnlys yr Achos nad oedd y cynghorydd wedi cydymffurfio â chod ymddygiad y Cyngor ac nad oedd wedi dangos parch ac ystyriaeth at eraill. Yn ei neges e-bost, nid oedd wedi ystyried teimladau'r derbynnydd, y bu ei mab mewn damwain ffordd ychydig cyn hynny. Yn ogystal, roedd y neges e-bost yn gwneud nifer o honiadau difrifol yn erbyn y derbynnydd. Daeth Tribiwnlys yr Achos i'r casgliad y gellid ystyried yn rhesymol bod y neges e-bost yn dwyn anfri ar swydd cynghorydd.

Wrth ystyried y gosb briodol, talodd Tribiwnlys yr Achos sylw i amgylchiadau lliniarol, yn cynnwys afiechyd y cynghorydd a'r ffaith ei fod wedi cydweithredu'n llawn â'r Ombwdsmon a'r Tribiwnlys. Fodd bynnag, dyma'r ail dro i'r cynghorydd gael ei atgyfeirio at y Panel Dyfarnu am ymddygiad tebyg. Bu Tribiwnlys yr Achos yn ystyried o ddifrif a ddylid ei anghymwyso ond daethpwyd i'r casgliad mai achos yn ymwneud ag un neges e-bost oedd hwn a bod y cynghorydd wedi cydnabod ei fod yn amhriodol.

Daeth Tribiwnlys yr Achos i'r casgliad y dylid atal y cynghorydd rhag gweithredu fel aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf am gyfnod o 12 mis.

## 3.3 Crynodeb o'r Tribiwnlysoedd Apêl

Cafodd un apêl yn erbyn penderfyniad pwyllgor safonau ei dderbyn a'i ddyfarnu yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn ac fe geir crynodeb ohoni isod.

## APW/006/2009-010/A - Cyngor Cymuned Llanarmon yn Iâl a Chyngor Cymuned Llandegla

Daeth apêl i law yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ddinbych bod y cynghorydd wedi torri codau ymddygiad y cynghorau cymuned ac y dylid ei atal am dri mis.

Yr honiadau oedd bod y cynghorydd dan sylw wedi torri codau ymddygiad y cynghorau cymuned trwy ymddygiad amhriodol mewn cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanferres ym mis Gorffennaf 2008.

Roedd y cynghorydd yn gyn-aelod o Gyngor Cymuned Llanferres ond roedd wedi colli ei sedd yn etholiadau lleol 2008. Felly, roedd yn bresennol yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf 2008 fel aelod o'r cyhoedd. Roedd wedi annerch y cyngor cymuned ar nifer o faterion gyda chydsyniad y cyngor ond gwrthodwyd cydsyniad iddo annerch y cyngor ar fater neilltuol arall. Honnwyd i'r cynghorydd siarad yn uchel wrth i'r cyngor drafod yr eitem honno; iddo dorri ar draws y cyfarfod; a bod y Cadeirydd wedi gofyn iddo beidio â thorri ar draws a'i atgoffa am ei ymrwymiadau o dan y cod ymddygiad. Rhybuddiwyd y cynghorydd gan y Cadeirydd y byddai'n gofyn iddo adael pe na bai'n peidio â thorri ar draws y cyfarfod. Parhaodd y cynghorydd dan sylw i dorri ar draws y cyfarfod a gofynnodd y Cadeirydd iddo adael y cyfarfod ond gwrthododd wneud hynny.

Dadleuai'r cynghorydd, ymhlith pethau eraill, ei fod yn bresennol yn y cyfarfod fel aelod o'r cyhoedd ac nad oedd yn gorfod cydymffurfio â chodau ymddygiad y cynghorau eraill.

Dyfarnodd Tribiwnlys yr Apêl fod ymddygiad y cynghorydd yn y cyfarfod yn groes i baragraff 6(1)(a) o god ymddygiad 2008 (sy'n berthnasol i aelod bob amser hyd yn oed os nad yw'n gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel aelod etholedig) gan ei fod wedi dwyn anfri ar swydd aelod. Dyfarnodd Tribiwnlys yr Apêl ei fod yn ymddygiad annerbyniol gan aelod etholedig, pa un bynnag a oedd yn bresennol

mewn cyfarfod o gyngor fel aelod etholedig neu fel aelod o'r cyhoedd, i siarad pan wrthodwyd caniatâd iddo wneud hynny; i dorri ar draws; ac i anwybyddu rhybuddion a roddwyd a cheisiadau a wnaed gan y Cadeirydd iddo beidio â dangos amarch at y Cadeirydd na'i swydd.

Cadarnhaodd Tribiwnlys yr Apêl ddyfarniad y Pwyllgor Safonau fod y cynghorydd wedi torri'r codau ymddygiad. Cadarnhaodd Tribiwnlys yr Apêl benderfyniad y Pwyllgor Safonau y dylid atal y cynghorydd am gyfnod o dri mis.

## 3.4 Achosion sydd ar y Gweill

Wrth ddrafftio'r adroddiad hwn, roedd y Panel Dyfarnu wedi dyfarnu ar saith achos yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac roedd wyth achos arall ar y gweill. Mae'r rhain yn cynnwys nifer o achosion neu achosion posibl o dorri codau ymddygiad, fel peidio â datgan buddiant mewn materion cynllunio, ceisio camarwain ymchwiliad gan yr Ombwdsmon, peidio â pharchu cyngor y swyddog monitro, peidio â dangos parch, ceisio camddefnyddio eu swydd fel aelod a bwlio a brawychu gweithwyr cyngor.

Ceir rhagor o wybodaeth am achosion sydd wedi'u cwblhau yn adroddiadau penderfyniadau'r tribiwnlysoedd a gyhoeddir ar wefan y Panel: www.paneldyfarnucymru.org.uk.

# 4. Trosolwg o'r Gweithdrefnau

Rheolir gwaith Panel Dyfarnu Cymru gan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac is-ddeddfwriaeth a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru / Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth San Steffan (yr olaf ynglŷn ag awdurdodau heddlu).

Prif nod y Panel Dyfarnu yw sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i gyflwyno eu hachos a bod yr achos hwnnw'n cael yr ystyriaeth lawnaf a thecaf sy'n bosibl.

Fel rheol bydd cadeirydd sydd â chymwysterau cyfreithiol a dau arall yn aelodau o dribiwnlys. Gellir amrywio hyn yn ôl disgresiwn Llywydd y Panel Dyfarnu.

Fel rheol, cynhelir gwrandawiadau tribiwnlysoedd yn gyhoeddus ac eithrio os yw'r tribiwnlys o'r farn y byddai cyhoeddusrwydd yn rhagfarnu buddiannau cyfiawnder, neu os yw'r ymatebydd neu'r apelydd yn cytuno y gellir delio â'r honiadau trwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig. O bryd i'w gilydd, gall fod rhesymau eraill dros beidio â chynnal gwrandawiad, neu ran o wrandawiad, yn gyhoeddus.

Fel rheol, cynhelir gwrandawiadau yn ardal yr awdurdod perthnasol os oes yno le addas. Mae trefniadau'r gwrandawiadau'n cymryd i ystyriaeth anghenion arbennig y rhai a fydd yn bresennol e.e. os oes angen lle ar gyfer cadair olwyn, dehonglydd, cymorth clyw, ac ati.

Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i rai sy'n dymuno i wrandawiad tribiwnlys gael ei gynnal yn y Gymraeg.

Mae gan y sawl y gwnaed yr honiadau amdano hawl i roi tystiolaeth, i alw ar dystion, i holi unrhyw dystion ac i annerch y tribiwnlys ar faterion sy'n ymwneud â'r honiadau sydd o dan ystyriaeth.

Cyhoeddir manylion gwrandawiadau tribiwnlysoedd a'u canlyniad ar wefan y Panel ac yn y wasg leol, fel sy'n briodol.

Mae hawl i geisio caniatâd yr Uchel Lys i apelio yn erbyn penderfyniad tribiwnlysoedd achos interim a thribiwnlysoedd achos a sefydlwyd gan y Panel Dyfarnu. Nid oes hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau tribiwnlysoedd apêl ond, fel corff cyhoeddus, gellir cynnal adolygiad barnwrol o'r Panel Dyfarnu a'i dribiwnlysoedd lle bo hynny'n briodol.

Ceir rhagor o wybodaeth am weithdrefnau tribiwnlysoedd ar wefan y Panel Dyfarnu (www.paneldyfarnucymru.org.uk)

# 5. Yr Uned Gymorth

Cefnogir y Panel Dyfarnu gan:

Stephen Phipps, Cofrestrydd y Panel
John Davies
Carol Webber
Jane Hanbury

Cyfeiriad y Panel yw:

Panel Dyfarnu Cymru
Llawr 1af, Adain y Gogledd (M-08)
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 6705/6414
Ffacs: 029 2082 5346

E-bost: adjudicationpanel@wales.gsi.gov.uk
Gwefan: www.paneldyfarnucymru.org.uk

# Atodiad

## Crynodeb o'r Cosbau a Roddwyd gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Apêl rhwng mis Hydref 2002 a mis Mawrth 2010

| Cosb | Cyfnod | Nifer y penderfyniadau |
|---|---|---|
| **Tribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Apêl** | | |
| Anghymhwyso | Dwy flynedd a 6 mis | 1 |
| | Dwy flynedd | 1 |
| | 1 flwyddyn | 2 |
| Atal dros dro | 12 mis | 3 |
| | 9 mis | 3 |
| | 6 mis | 4 |
| | 3 mis | 2 |
| | 2 fis | 2 |
| | 1 mis | 2 |
| Atal Dros Dro yn Rhannol | - | - |
| Cerydd | - | 2 |
| Torri'r cod - dim camau | - | 3 |
| Heb dorri'r cod | - | 4 |
| **Apeliadau** | | |
| Cadarnhau / gwrthod y dyfarniad | 7 (87.5%) / 1 (12.5 %) | |
| Cadarnhau'r gosb | 5 | |
| Argymell cosb wahanol | 1 cynnydd / 1 gostyngiad | |
| Heb dderbyn/wedi tynnu yn ôl<br>• Allan o amser<br>• Heb fod o fewn awdurdodaeth<br>• Wedi tynnu yn ôl | <br>1<br>1<br>1 | |